# CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PANEL ARIANNU ALLANOL ARBENNIG

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE AR DDYDD IAU, 7 GORFFENNAF 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:**

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | C Richards |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Ian Beynon | Rheolwr Datblygu ac Allgymorth |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| Paul Relf | Swyddog Ewropeaidd |

1 **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016 - 2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016 - 2107.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016 - 2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd C Richards yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016-2017.

**(BU'R CYNGHORYDD C RICHARDS, YR IS-GADEIRYDD, YN LLYWYDDU)**

3 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y cynghorwyr: M C Child, J E C Harris, D H Hopkins a R C Stewart.

4 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

5 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2016 fel cofnod cywir.

6 **MEYSYDD CHWARAEON ARTIFFISIAL TRYDEDD GENHEDLAETH.**

Cyflwynodd Rheolwr Datblygu ac Allgymorth adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno cynnig i'r Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Cydweithredol (yn cynrychioli Chwaraeon Cymru a Chyrff Llywodraethu Rygbi, Pêl-droed a Hoci yng Nghymru) i ddatblygu caeau chwaraeon artiffisial (3G) mewn dau fan a nodwyd yn strategol yn Abertawe.

Holodd aelodau am gostau cynnal, cynnal a chadw'r caeau a gwnaethant geisio sicrwydd y byddai costau'r ddau safle o leiaf yn adennill costau.

Eglurodd y Rheolwr Datblygu ac Allgymorth y byddai'r costau cynnal posibl ar gyfer pob cyfleuster rhwng £40,000 a £45,000 a byddai'n cael ei ariannu gan yr incwm a gynhyrchir gan y ddau safle. Roedd hyn yn cynnwys darparu cronfa ad-dalu ar gyfer ailosod y carped a'r siocleddfwr (os yw'n berthnasol), yn ogystal â naill ai trwsio neu ailosod ffensys a llifoleuadau. Gan dybio y byddai'n para 10 mlynedd, gan ddibynnu ar ddefnydd a chynnal a chadw, cynigir clustnodi cronfa ad-dalu o rhwng £15,000 a £20,000 y flwyddyn i bob safle. Roedd yr Achos Busnes wedi nodi y byddai'r safleoedd yn adennill costau.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Panel Ariannu Allanol yn nodi'r goblygiadau yn yr adroddiad ac yn cymeradwyo cyflwyno achos busnes er mwyn denu hyd at £400,000 o gyllid.

Cododd y Rheolwr Datblygiad ac Allgymorth fater brys mewn perthynas y mae ei angen ar Ysgol/Canolfan Hamdden Llandeilo Ferwallt o ran cyllido cyfleuster 3G ar y cyrtiau tenis presennol. Sefydlwyd ymddiriedolaeth i dalu am y prosiect; fodd bynnag, roedd diffyg o £15,000. Cadarnhaodd mai staff Canolfan Hamdden Llandeilo Ferwallt fyddai'n cynnal a chadw'r cyfleuster a byddai'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol a defnyddwyr y ganolfan hamdden. Gobeithiwyd y byddai'r gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod gwyliau haf yr ysgol er mwyn osgoi anghyfleustra.

Cytunodd y Panel Ariannu Allanol â'r cyllid mewn egwyddor, yn amodol ar gyflwyno adroddiad ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.16 am

**CADEIRYDD**